# Cynllun Amddiffyn Arfordir Caerdydd

## Diweddariad Prosiect

Mae gwaith ar Cynllun Amddiffyn Arfordir Caerdydd yn parhau i wneud cynnydd da ar draws sawl rhan o'r safle. Bydd y prosiect yn helpu i leihau'r risg o lifogydd ac yn diogelu cartrefi, busnesau a seilwaith pwysig ar hyd arfordir Caerdydd.

Isod mae diweddariad syml ar y gwaith y gallech ei weld yn digwydd ar draws y safle dros y misoedd nesaf.




## Lleoliad 12

O nawr hyd ddiwedd mis Mawrth bydd gwaith yn parhau ar y warchodaeth creigiau ar hyd yr arfordir, gan gynnwys diogelu'r allfa ddŵr ac ymestyn y warchodaeth creigiau.

O fis Ebrill hyd fis Medi bydd gwaith symud pridd yn dechrau i adeiladu arglawdd llifogydd newydd y tu ôl i'r warchodaeth creigiau. Bydd yr arglawdd hwn yn helpu i leihau'r risg o lifogydd yn ystod stormydd neu lanwau uchel. Bydd yr ardal uwchben y warchodaeth creigiau hefyd yn cael ei hadfer.

## Lleoliad 22

Erbyn diwedd mis Mawrth bydd y gwaith pentyrru yn Lleoliad 22 wedi'i gwblhau.

Ar ôl hyn bydd gwaith yn dechrau ar arglawdd llifogydd newydd a fydd yn rhedeg o Leoliad 12 hyd at y clwb cychod ar Ffordd Rover. Bydd y gwaith hwn yn digwydd dros gyfnod yr haf.

## Lleoliad 32

Mae'r holl bentyrrau yn Lleoliad 32 bellach wedi'u gosod i'r dyfnder gofynnol. Dros yr wythnosau nesaf bydd brigau'r pentyrrau yn cael eu torri i'r lefel gywir.

Mae gwaith dylunio ar gyfer cam nesaf y gwaith ar hyd Ffordd Lamby yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Y dewis a ffefrir yw gosod pentyrrau ychwanegol gan ddefnyddio peiriant pentyrru tawel sy'n helpu i leihau sŵn a dirgryniadau.

Gan fod y dyluniad yn dal i gael ei ddatblygu, nid oes dyddiad cychwyn pendant ar gyfer y gwaith hwn eto. Bydd rhagor o ddiweddariadau yn cael eu rhannu pan fydd yr amserlen wedi'i chadarnhau.Mae cynigion hefyd i gymysgu pridd yn ddwfn o flaen y pentyrrau i gryfhau'r tir. Mae'r dyluniad ar gyfer y gwaith hwn yn dal i gael ei ddatblygu a bydd amserlen yn cael ei chadarnhau yn ddiweddarach.

## Lleoliad 42

Yn ystod mis Mawrth ac Ebrill bydd y tîm yn cwblhau dyluniadau gwaith dros dro ac arolygon ecolegol er mwyn galluogi gwaith clirio safle i ddechrau'n ddiogel.

Ym mis Ebrill bydd mynediad safle newydd yn cael ei greu o Ffordd Lamby er mwyn galluogi cerbydau adeiladu i gyrraedd yr ardal waith.

Bydd adeiladu arglawdd amddiffyn rhag llifogydd Lleoliad 42 yn dechrau ym mis Ebrill ac fe ddisgwylir iddo gael ei gwblhau erbyn diwedd mis Mehefin.

Lleoliad 52

Bydd gwaith paratoi gan gynnwys cynllunio gwaith dros dro ac arolygon ecolegol yn digwydd yn ystod mis Mawrth ac Ebrill.

Disgwylir i adeiladu'r arglawdd llifogydd newydd ddechrau tua diwedd mis Mehefin a pharhau hyd fis Medi.

## Ymweliad Gweinidogol

Y mis diwethaf roeddem yn falch o groesawu Dirprwy Brif Weinidog Cymru, Huw Irranca-Davies, cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru ac arweinwyr o Gyngor Caerdydd i Gynllun Amddiffyn Arfordir Caerdydd. Yn ystod yr ymweliad cawsant weld y cynnydd sy'n cael ei wneud ar y prosiect pwysig hwn, a fydd yn helpu i ddiogelu cartrefi, busnesau a seilwaith hanfodol ar hyd arfordir Caerdydd.

Treuliodd y Dirprwy Brif Weinidog amser hefyd yn siarad gyda'n prentisiaid ar y safle am eu hyfforddiant a'r sgiliau gwerthfawr y maent yn eu datblygu wrth weithio ar y cynllun.

## Cyfleoedd STEM i Ysgolion a Grwpiau Ieuenctid

Mae Knights Brown yn angerddol dros ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf i ystyried gyrfaoedd ym maes adeiladu a pheirianneg. Trwy ein rhaglen STEM rydym yn gweithio gydag ysgolion a grwpiau ieuenctid ledled Caerdydd i gyflwyno gweithdai diddorol sy'n cyflwyno pobl ifanc i'r gwahanol rolau sydd ynghlwm wrth gyflawni prosiectau seilwaith mawr.

Mae ein tîm wedi datblygu amrywiaeth o weithgareddau dysgu rhyngweithiol sy'n dod â pheirianneg yn fyw. Mae hyn yn cynnwys Constropolis, gêm fwrdd ar thema adeiladu a grëwyd gan ein llysgenhadon STEM sy'n herio chwaraewyr i reoli prosiect wrth ddatblygu sgiliau gwaith tîm a datrys problemau.

Rydym hefyd wedi datblygu Blwch Tywod Realiti Estynedig, offeryn dysgu trochi sy'n galluogi disgyblion i greu tirweddau gan ddefnyddio tywod a gweld yn syth sut mae dŵr yn llifo, sut mae afonydd yn ffurfio a sut mae amddiffynfeydd rhag llifogydd yn gweithio. Gan fod Knights Brown ar hyn o bryd yn cyflawni prosiect amddiffyn arfordirol yng Nghaerdydd, mae'n ffordd bwerus o ddangos sut mae peirianneg ynhelpu i ddiogelu cymunedau a'r amgylchedd.




Os hoffai eich ysgol neu grŵp ieuenctid gynnal gweithdy neu sesiwn ddysgu STEM, byddem yn falch iawn o glywed gennych.
cardiffcds@knightsbrown.co.uk

# Cardiff Coastal Defence Scheme

## Project Update

Work on the Cardiff Coastal Defence Scheme is continuing to make good progress across several areas of the site. The project will help reduce the risk of flooding and protect homes, businesses and important infrastructure along Cardiff's coastline.




## Location 12

From now until the end of March, work will continue on the rock revetment, including protection around the outfall and an extension to the rock armour.

From April to September, earthworks will begin to build a new flood embankment behind the rock revetment. This raised earth barrier will help reduce the risk of flooding during storms or high tides. The area above the rock revetment will also be reinstated.

## Location 22

By the end of March the piling works at Location 22 will be complete.

Following this, work will begin on a new flood embankment which will run from Location 12 up to the boat club on Rover Way. These works will take place during the summer months.

## Location 32

All piles along Rover Way up to the roundabout / Lamby Way junction have now been installed to the required depth. Over the next few weeks the tops of the piles will be trimmed to the correct level.

Design work is currently underway for the next stage of works along Lamby Way. The preferred option is to install additional piles using a silent piling press machine, which helps reduce noise and vibration.

As the design is still being developed, there is not yet a confirmed start date for this work. Further updates will be shared once the programme is confirmed.

There are also proposals for deep soil mixing in front of the piles to strengthen the ground. The design for this work is still being developed and timings will be confirmed later.

## Location 42

During March and April the team will complete temporary works designs and ecological surveys to allow site clearance to begin safely.

In April a new site access route will be created from Lamby Way to allow construction vehicles to reach the work area.

Construction of the Location 42 flood defence embankment will begin in April and is expected to be completed by the end of June.

## Location 52

Preparation work including temporary works planning and ecological surveys will take place during March and April.

Construction of the new flood defence embankment is expected to begin towards the end of June and continue through to September.

## Ministerial Visit

Last month we were pleased to welcome Deputy First Minister Huw Irranca-Davies, representatives from the Welsh Government and leaders from Cardiff Council to the Cardiff Coastal Defence Scheme. During the visit they saw the progress being made on this important project, which will help protect homes, businesses and vital infrastructure along Cardiff's coastline.

The Deputy First Minister also spent time speaking with our apprentices on site about their training and the valuable skills they are developing while working on the scheme.

## STEM Opportunities for Schools and Youth Groups

At Knights Brown we are passionate about inspiring the next generation to explore careers in construction and engineering. Through our STEM outreach programme, we work with schools and youth groups across Cardiff to deliver engaging workshops that introduce young people to the many roles involved in delivering major infrastructure projects.

Our team has developed a range of interactive learning activities designed to bring engineering to life. This includes Constropolis, a construction themed board game created by our STEM ambassadors which challenges players to manage a project while developing teamwork and problem-solving skills.

We have also developed an Augmented Reality Sandbox, an immersive learning tool that allows students to shape landscapes using sand and instantly see how water flows, rivers form and flood defences work. With Knights Brown currently delivering a coastal defence project in Cardiff, it provides a powerful way to demonstrate how engineering helps protect communities and the environment.

If your school or youth group would be interested in hosting a STEM workshop or learning session, we would be delighted to hear from you.



# Cynllun Amddiffyn Arfordir Caerdydd
# Cardiff Coastal Defence Scheme
# Lluniau Diweddaraf / Update Images - Mawrth / March 2026

KNIGHTS BROWN



Lleoliad 32 o bentyrrau wedi'u gyrru i ddyfnder i gylchfan Ffordd Rover.
Location 32 sheet piles driven to depth to Rover Way roundabout.



Lleoliad 22 - Mae gwaith pentyrrau yn parhau ar gyflymder, bron â'i gwblhau.
Location 22 - Sheet pile works continuing at pace, nearing completion



Mae Arfwisg Creigiau yn Lleoliad 12 bellach wedi'i gwblhau 90%, gyda rhannau clymu i'w gwneud o hyd.
Rock Armour in Location 12 now 90% completed, with tie in sections still to be carried out.



Lleoliad 12 - Ardal gorllewinol yr Arfiwisg creigiau bron wedi'i orffen
Location 12 - Western end of Rock Armour nearing completion



Lleoliad 32 pentyrrau wedi'u gyrru i'r safle gwrthod, gyda'r pentyrrau sy'n weddill i'w torri i lefel
Location 32 sheet piles driven to refusal, with remaining piles to be cut to level



Lleoliad 22 pentyrrau yn symud ymlaen at eu cwblhau
Location 22 sheet piles progressing towards completion



Y Dirprwy Brif Weinidog ac arweinydd Cyngor Caerdydd, Huw Thomas, yn ymweld â'r cynllun
Deputy First Minister and the leader of Cardiff Council , Huw Thomas visits the scheme



Mae'r Dirprwy Brif Weinidog, Huw Irranca-Davies, yn sgwrsio â'n prentisiaid ar y safle.
Deputy First Minister, Huw Irranca-Davies chats with our apprentices on site.

JBA consulting ARUP CARDIFF CAERDYDD CRYFACH TECACH GWYRDDACH STRONGER FAIRER GREENER ARCADIS